## GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

## SWYDD-DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **Adran** | Gwasanaethau Fflyd a Pheirianneg |
| **Swydd** | Trydanwr Cerbydau |
| **Rhif y Swydd** | NU039 |
| **Gradd** | Graddfa 9 |
| **Lleoliad** | Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub |
| **Yn gyfrifol i'r** | Rheolwr Cyflwyno Gwasanaethau |

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

| PRIF BWRPAS Y SWYDD |
|---|
| Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am wasanaethu, atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau, peiriannau, systemau ac offer trydanol o ddydd i ddydd gan gynnwys gweithdrefnau archwilio a phrofi yn unol â'r safonau uchel sy'n ofynnol gan Wasanaeth Brys. |

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**

1. Bod yn gyfrifol am wasanaethu, atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau GTADC o ddydd i ddydd, peiriannau ac offer systemau trydanol gan gynnwys gweithdrefnau archwilio a phrofi wedi'u rhaglennu.

2 Gweithio fel gweithiwr gyda sgiliau niferus gan ymgymryd â'r disgyblaethau canlynol: - diagnosis a chywiro holl ddiffygion systemau trydanol, gan ddarparu cymorth technegol i lefel sy'n gyson â'r safonau uchel sy'n ofynnol gan wasanaeth brys.

3 Cyfranogi mewn hyfforddiant a mentora Prentisiaid a Hyfforddai.

4 Casglu a darparu cerbydau, peiriannau trymion ac offer ar gyfer trwsio/ Cynnal a Chadw o fewn neu y tu allan o i ardal Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

5 Cymryd rhan yng nghynllun wrth gefn brys 24 awr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel rhan o'r rota dyletswydd a darparu gwasanaeth tu allan i oriau ychwanegol rhesymol yn ôl yr angen.

6 Mynychu ar benwythnosau a thu allan i oriau arferol i fodloni gofynion y Gwasanaeth Tân ac Achub.

**GOFYNION GWASANAETH SAFONOL**

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd

- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth.

- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.

- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

**GWERTHOEDD SEFYDLIADOL**

Wrth gyflawni'r rôl uchod, mae'n ofynnol i holl weithwyr y Gwasanaeth arsylwi a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth bob amser:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall.

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG